YR YMOFYNYDD.

"PROFWCH BOB PETH: DELIWCH YR HYN SYDD DDA."—Paul.

AWST, 1872.

Y STAD-EGLWYS.

Cynyg Mr. Miall.—Prydnawn dydd Iau, y 4ydd o Orphenaf, darfu i Mr. Miall gynyg fod deisyfiad i gael ei ddanfon i'r Frenines i apwyntio Dirprwyaeth Freninawl, er cael allan, trwy ei chyfrwng, fanylion llawn a chywir o ddechreuad, natur, swm, a chymhwysiad pob meddianau a chyllidau a neillduolir i wasanaeth y Stâd Eglwys. Sylwodd fod yr hysbysiaeth a geisiai gan y Ty yn anhepgorol ofynol i ffurfio golygiadau ystadegwraidd ar y pwnc, ac a fyddant yn eisiau, os y mabwysiada y wlad, fel y credai y byddai iddi wneuthur cyn bo hir, yr egwyddor o ddatgyssylltiad a diwaddoliad. Ystyriai fod ganddo hawl i'r hysbysiaeth a geisiai ar y tir fod y Stâd-Eglwys yn sefydliad gwladol, ac yn feddiant y wlad fel y fyddin neu y llynges. Dywedid wrthym yn barhäus fod meddianau y Stâd-Eglwys ar yr un sylfaen â meddiant pob tir-feddianydd yn y deyrnas, ond yr oedd efe yn dal y dangosai yr arholiad i mewn a geisiai trwy gyfrwng Dirprwyaeth Freninawl, yn ddiddadl, na allasai y degwm gyfundraeth gael ei dechreuad yn ewyllys da unigolion *(private individuals)*, ac yr oedd efe yn credu y gellid profi fod wyth rhan o naw o'r tir sydd yn awr yn ddarostyngedig i ddegwm wedi cael ei wneud felly o oes i oes gan y Stâd. Gan gyfeirio at y gwrthwynebiad a ragwelai i'w gynyg, addefai fod gwirionedd sylweddol yn yr haeriad, sef y bwriedid y cynyg i fod y cam cyntaf at ddatgyssylltiad a diwaddoliad, a daliai na ellid cynal i fyny y Stâd-Eglwys yn hir trwy omedd caniatau y cynyg. Mewn dadl fel hon—dadl a duedda i osod crefydd-ddysgiad mewn undeb ag ysbryd y wlad—dadl, cofier, ag na all ewyllys dyn byth ei

lluddias, yr hon sydd yn cyffroi meddwl ac yn awr yn cynhyrfu bywiogrwydd pob gwlad yn Ewrop—a'r hon, trwy neu heb ganiatad, sydd yn myned rhag ei blaen gyda grym anwrthwynebol tua therfyniad a eglur-ganfyddid gan bawb a ddaliant sylw ar arwyddion yr amseroedd—yn fyr, mewn dadl o'r fath, mewn gwlad weithredol fel hon, ychydig lwydda cyfrwysdra a hoced ag ydynt yn debyg i dywod-gestyll a adeiledir gan blantos ar y traeth i'w gweled yn cael eu 'sgubo ymaith gan lanw y môr. Wedi hir ddadl gwrthodwyd y cynyg gan 295 yn erbyn 94. Y'mhlith yr olaf yr oedd Sir J. Stepney, Mr. Sartoris, y ddau Richards, G. O. Morgan, R. Fothergill, Mr. Dillwyn, &c. Dim ond 4 o aelodau Cymreig a bleidleisiasant yn erbyn y cynyg, ac am hyny yr oedd deuddeg o honynt drosto. Mae hyn yn dywedyd yn dda am Gymru.

Nid oedd gwrthodiad y Ty i ganiatau y Ddirprwyaeth a ddeisyfai yn un math o siomedigaeth i *Mr. Miall* a'i gyfeillion, oblegid nid oes neb mor ffol a dysgwyl y fath beth gan y Senedd bresenol, na chyhyd ag y byddo Mr. Gladstone yn ei arwain, ond y prif ddyben yw cyffroi y wlad a thynu ei sylw at y pwnc. Rhaid yn gyntaf ddihuno y bobl i ganfod y niwed mawr i grefydd a rhyddid o eglwys sefydledig, ac nid oes un ffordd yn fwy effeithiol tuag at hyn na dwyn y pwnc ger bron y Ty mor fynych a fyddo bosibl. Yr ydys yn sicr o lwyddo yn y diwedd, ac wrth bob argoelion nid yw y diwedd mor bell ag y meddylia llawer. Yr ydys yn cofio'r amser pan oedd y *ballot* yn llawer mwy ammhoblogaidd yn y Ty nag yw pwnc y dadgyssylltiad yn awr. Digrifwch iddo yn wastad oedd cynyg blynyddol Mr. Wakeley, yr aelod dros Frystau. Sut mae yn bod yn awr gydâ golwg ar y pwnc hwnnw? Buasai yn gyfraith y wlad ys mwy na blwyddyn oni bai dallineb ac ystyfnigrwydd Ty yr Arglwyddi, y rhai a dyngedwyd unwaith eto i "fwyta eu ceninen." Mae y meddwl cyhoedd *(public opinion)* yn myned rhag ei flaen yn awr yn gyflymach nag erioed. A chymeryd pob peth dan ystyriaeth, mae sefyllfa bresenol pwnc *Mr. Miall* mewn cyflwr tra gobeithiol. Nid oes achos llwfrhau. Mae ganddo gynorthwydd da, nid llai na'r Eglwys Sefydledig ei hun, yr hon sydd yn cydweithio ag ef fraich ac ysgwydd. Mae ei thy wedi ymranu yn erbyn ei hunan, am hyny mae genym awdurdod i ddysgwyl na saif yn hir.

Nid oes dim amheuaeth ychwaith nad yw y pwnc o ddatgyssylltiad a diwaddoliad y Stâd-Eglwys yn cynnyddu bob blwyddyn mewn pwysigrwydd. Nis gall un pwnc fod yn fwy pwysig yn awr i'r wlad na hwn. Cyn y gellir gwneuthur llawer mwy o gynnydd mewn rhyddid crefyddol a gwladol mwyach yma, rhaid yn gyntaf gosod yr Eglwys hon yn yr un sefyllfa â'r Ymneillduwyr gydâ golwg ar y Stâd. Offeiriaid ei heglwys yw y rhwystr mwyaf yn bresenol ar ffordd blaenfynediad crefyddol a chymdeithasol. Pwy gynnydd ellir ddysgwyl wneuthur mewn crefydd cyhyd ag y byddo corph mawr a dylanwadol o ddynion, yn wasgaredig trwy'r wlad, yn ymddibynu am eu bywoliaeth a'u sefyllfa gymdeithasol ar gynal i fyny hen dduwinyddiaeth dri chant oed? Edrychwch ar ei ymddygiad diweddar gyda golwg ar gredo St. Athanasius, fel ei gelwir. A ydym i gredu y buasai cannoedd o offeiriaid penllwyd, ac yn eu plith esgobion ac archesgobion, a deoniaid,

a chanoniaid, ac ni wyddom beth, yn rhoddi awr o'u hamser i ystyried cyfansoddiad mor ansynwyrol ac anghristaidd, oni bai cyssylltiad eu heglwys â'r Stad? Mae ein meddwl da am danynt fel dynion yn peri i ni gredu na wnelent am fynyd, chwaethach awr. Ie, ac yn y diwedd penderfynasant ei chadw yn eu llyfr gweddi a'i darllen i'r bobl! Beth feddyliwn am hyn? Pwy obaith sydd gan Grist'nogaeth tra fyddo Stâd-Eglwys yn ein gwlad?

Hefyd, pwy sydd ys mwy na dau can' mlynedd yn y wlad hon wedi gwrthwynebu â'u holl egni bob mesur rhyddfrydol a gynygir? Onid Esgobion ac offeiriaid y Stâd-Eglwys? Yn hyn mae eu lles tymhorol yn gynwysedig. Gwyddant fod eu bodolaeth fel corph *(corporation)* yn y Stâd yn ymddibynu ar eu llwyddiant i gadw oddiwrth y bobl bob pwer gwladol. Am hyny er eu gwaethaf, yr ydys wedi enill pob mesur mawr o ryddid. Er enghraifft, y *Reform Bill, Catholic emancipation,* datgyssylltiad yr Eglwys Wyddelig, wrth gwrs, ac Ysgrif Addysg 1870; a phwy yn awr sy'n fwy gelynol na hwy i'r *ballot*?

Yn naturiol, nid yw'r offeiriadaeth uchafol yn fwy gwrthwynebol i ryddid nac eraill. Yr egwyddor o Eglwys Sefydledig sydd yn eu gwneuthur i wrthwynebu rhyddid y bobl, oblegid gwyddant fod rhyddid yn anffafriol i'r egwyddor ag sydd yn sylfaen eu pwer. Mewn gair, mae cyssylltiad crefydd â'r Stâd nid yn unig yn rhwystr i gynnydd, ond yn ffieiddbeth *(nuisance)*, a chyn y gallo olwynion y stâd-gerbyd gychwyn lawer y'mhellach, rhaid symud y rhwystr hwn oddiar ei ffordd.

Yr addefiad hyf yn Oldham gan yr Anrhyd. Lydulph Stanley o'i olygiadau gwrth-Stâd-Eglwysig, sydd un o'r arwyddion fod yr amser yn dynesu pryd y bydd i Ddatgyssylltiad a Diwaddoliad gael eu gwneuthur yn bwnc o ddadleu etholiadol. Hysbysir iddo lefaru ar yr esgynlawr *(hustings)* fel y canlyn :—

"Fy marn i yw na ddylai un opiniwn golygiadol (*speculative opinion*) gael ei gynorthwyo gan y Stâd, ond y dylai opiniynau a phob argyhoeddiadau gael eu gadael i ymddibynu ar eu teilyngdod a'u gwirionedd eu hunain am dderbyniad neu wrthodiad, poblogrwydd neu ammhoblogrwydd. Ystyriaf mai pethau niweidiol yw i'r opiniynau a osodwyd ar y wlad gan un o epil freninawl teulu Tudwr gael eu derbyn fel opiniynau a ddylent fodoli y'mhob oes o honi. Ystyriaf fod Stâd-Eglwys yn y dydd hwn yn beth rhwystrol i bawb a garant ryddid, oblegid gwelwn fod yr Eglwys hon, a fwriedid yn amddiffynfa yn erbyn ffurfiau gwrthweithiadol o grediniaeth ac anoddefgarwch offeiriadol, yn cael ei llanw â nifer o ddynion a ddefnyddiant eu swydd i'r dyben i ddwyn yn ol opiniynau a wrthodwyd 300 o flynyddau yn ol."

Er yn anffodus na etholwyd Mr. Stanley, darfu iddo gael rhagor o bleidwyr na'r diweddar Mr. Platt mewn etholiad blaenorol, ac yn ddigon tebyg a feiddiasai unrhyw un arall ond Mr. Cobbett, yr hwn sydd yn frawd-yn-nghyfraith i Mr. Fielden—boneddwr Undodaidd yn meddu dylanwad nid bychan yn Oldham. Addefwn ein bod yn fwy boddhaol â'r fath faeddiad nac ydym â llwyddiant Mr. Bassett, anerchiad etholawl yr hwn a gynwys y sylw canlynol :—

"Fel aelod o Gymdeithas (Gwaceraidd) egwyddorion yr hon sy'n wrthwynebol i bob Stâd ymyraeth â chrefydd, mae fy opiniynau yn eithaf gwybodus. Ond er

hyny dewisaf hysbysu yn eglur nad ydwyf fi yn barod i bleidleisio dros Ddatgysylltiad a Diwaddoliad Eglwys Loegr ; ond mi a bleidleisiwn dros symud pob rhwystrau ar ffordd plant Annibynwyr gael derbyniad i'r prif ysgolion."

Rhaid addef mai Ymneillduwyr mawrfrydig fyddai y cyfryw a attegent ymgeisydd Seneddol a fyddai yn barod i roddi iddynt beth a feddant yn barod—ond yn groes idd ei egwyddorion proffesedig, a omeddai iddynt y peth sydd arnynt eisiau gael. Nid dynion o'r fath egwyddorion ystwyth, fel eiddo Mr. Bassett, ddylid ddanfon i'r Senedd.

Mae yn bosibl nad yw pawb o'n darllenwyr yn gwybod beth sydd i'w ddeall wrth *ddiwaddoliad* yr Eglwys Sefydledig. Hyn sydd i ddeall. Gelwir y Stâd-Eglwys yn Eglwys Waddolog, am i fod y Stâd yn caniatau iddi fwyniant y degwm a chynyrch blynyddol y peth a elwir yn Saesneg *glebe lands*, sef tiroedd a adawyd yn yr hen oesoedd i wasanaeth y grefydd Babaidd. Mae y cynyrch hwn gydâ'r degwm yn swm aruthrol yn y flwyddyn, dim llai, medd rhai, nag 20 miliwn o bunnau. Yn awr, byddai yn bosibl rhyddhau yr Eglwys oddiwrth y Stâd a gadael iddi er hyny fwynhau y cyfoeth hwn. Yn wir, hoffai ei hoffeiriaid yn fawr y fath ddatgyssylltiad a hyny, oblegid celent eu rhyddhau o lyffethyrau y Stâd, ac ar yr un pryd gadw gafael ar y cyfoeth; ond rhaid cymeryd gofal na fyddo hyn i gymeryd lle, o herwydd ni allai dim fod yn fwy niweidiol i ryddid. Nid yn unig mae yn rhaid datgyssylltu yr Eglwys oddiwrth y Stâd, ond bydd yn rhaid hefyd ei diwaddoli ar yr un pryd, hyny yw, ei hamddifadu o'r cyfoeth rhagddywededig, a'i gadael hi, fel enwadau eraill, i ymddibynu ar ewyllys da ei haelodau. Dyma beth sydd i ddeall wrth ddiwaddoliad. Beth sydd i wneuthur â'r cyfoeth hwnnw, sy bwnc arall, ac un nad yw yn perthyn i ni benderfynu. Dywedasom ryw bryd yn ol, os na ellid cytuno yn ei gylch, mai doeth fyddai troi y cyfoeth yn arian, a hurio Llong y *Great Eastern* i'w gludo i ganol yr *Atlantic*, a'i arllwys i'w dyfnderoedd. Ond digon tebyg y gellid ei droi i ryw ddefnydd gwell i'r genedl.

A oes genych gredo? Oes, ac felly mae gan bob dyn o ddeall a synwyr cyffredin. Yn wir, creda pob dyn ryw beth am grefydd, am hyny y mae ganddo gredo, p'un ai mewn ysgrifen y mae neu mewn siarad, yn gyhoeddus ganddo neu yn ddirgel. Mae gan bob dyn opiniynau crefyddol o ryw fath am Dduw, Crist, y Beibl, pechod, cyfrifoldeb dyn, a dydd barn. Yr opiniynau hyny, beth bynag ydynt, yw ei gredo, ac nid oes dim bai arno am goleddu ei gredo, ei hamddiffyn, a'i thaenu, os gall, cyhyd ag mai ei gredo ydyw. Ond ni awn gam yn mhellach. Meddyliwch fod nifer o Grist'nogion wedi ffurfio yn gymdeithas yn cytuno ar y cyfan y'nghylch rhyw ddaliadau, a oes rhyw niwed yn eu gwaith yn gosod y daliadau hyny mewn ysgrifen, ac yn galw yr ysgrifen yn gredo? Nac oes dim, ac yr ydym yn rhyfeddu

pa fodd y gall neb fod yn groes i gredo yn yr ystyr hyn. Pa fodd, ynte, mae credo yn niweidiol? Yr ydym yn ateb. Mae credo yn niweidiol pan fyddo y sawl a'i phroffesant yn peri i eraill hefyd ei phroffesu, a hyny yn groes i'w barn. Pan yr amcanir gwneud y gredo hono yn anghyfnewidiol am byth, fel y gwna y Stâd gyda golwg ar gredöau yr Eglwys Sefydledig, fel y gwna y Pab yn ei eglwys yntau, a phabau bach y sectau Protestanaidd. Mae y gred yn niweidiol pan y rhyfygir i ddyweyd ei bod yn hanfodol i iachawdwriaeth, fel yr haerodd Golygydd y *Faner* yn ddiweddar am y credöau Trindodaidd. Mewn gair, mae credo yn niweidiol pan y cyffroa ddynion i edrych yn wgus ar y sawl nis derbyniant, ac i omedd iddynt yr enw *Cristion*. Dyma beth ydym yn ddeall wrth y gair *sectariaeth*, sef ymdrech gan gymdeithas o ddynion i ddal i fyny sect, a chredöau y sect, fel y pethau blaenaf a phwysicaf yn eu golwg, ac yn cau eu llygaid ar bob goleuni, ond yr hyn feddyliant sydd yn cadarnhau eu daliadau hwy eu hunain.

Cyfarfyddir yn fynych yn y Testament Newydd â'r frawddeg "bywyd trag'wyddol," yn enwedig yn Efengyl Ioan. Beth a feddylir wrth y frawddeg hon? Peth o bwys yw ceisio allan ei meddwl. Mae wedi bod yn bwnc genym mewn un neu ddau gwrdd Cwarter, ac y mae dyweyd da wedi bod arno. Ymddengys i ni mai meddwl y frawddeg hon yn gyffredin yn y Testament Newydd yw cyflwr ysbrydol yr enaid dan ddylanwad Efengyl Crist—cyflwr o ddedwyddwch diddarfod. Fel prawf cyfeiriwn ein darllenwyr at yr ymadroddion canlynol :—

Ioan iii. 36.—"Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd trag'wyddol."

Ioan iv. 14.—"Y dwfr a roddwyf fi iddo a fydd ynddo yn ffynon o ddwfr yn tarddu i fywyd trag'wyddol."

Ioan vi. 47.—"Yr hwn sydd yn credu ynof fi sydd ganddo fywyd trag'wyddol."

Ioan xvii. 3.—"A hyn yw'r bywyd trag'wyddol iddynt dy adnabod di, yr unig wir Dduw, a Iesu Grist yr hwn a anfonaist."

Gal. vi. 8.—"Yr hwn sydd yn hau i'r Ysbryd, o'r Ysbryd a fed fywyd trag'wyddol."

1 Tim. vi. 12.—"Ymdrecha hardd ymdrech y ffydd, cymmer afael ar y bywyd trag'wyddol."

Yn yr ymadroddion hyn, ac eraill cyffelyb iddynt, amlwg yw fod cyfeiriad at gyflwr presenol yr enaid. Bywyd mewnol, ac nid stâd allanol, yw bywyd trag'wyddol—bywyd Duw yn enaid dyn—bywyd a fwynheir yn y byd hwn, ond un na dderfydd yn angeu. Daw gyda ni i'r bywyd arall ac a barha byth. Mae yn ffaith nad yw Crist na'r Apostolion yn gwneud un cyfrif o farwolaeth naturiol. Nid yw angeu o ddim pwys yn eu golwg. Edrychent arno fel apwyntiad doeth a daionus y Tad Nefol. Bwlch yw angeu trwy yr hwn y mae dysgyblion

Crist i fyned i'r bywyd trag'wyddol ag sydd tu draw i'r bedd. Gyda golwg ar yr amser sydd rhwng terfyn y bywyd hwn a dechreu yr un dyfodol, nid yw o fawr bwys i ni p'un a ydyw yr ail fywyd yn dechreu yn uniongyrchol ar ein hymadawiad oddiyma, neu ynte y bydd amser anfesuradwy yn cyfryngu rhyngddynt, nid ymddengys yr amser hwnw i ni yn hwy na hûn y nos pan yn cyfodi yn y boreu. Nid yw amser ddim i'r marw. P'un ai bach ai mawr fydd yr amser rhwng angeu ac ail fywyd, ni fydd yn fwy i ni nac amrantiad llygad. Gyda chymhwysder mawr am hyny y dywed Crist am y rhai a gredant ynddo "na fyddant marw yn dragywydd."

DYDD ST. BARTHOLOMEW.

Y PEDWARYDD-AR-HUGAIN o'r mis hwn (Awst) yw dydd St. Bartholomew—diwrnod tra nodedig yn hanes yr Eglwys Brotestanaidd, o herwydd dau beth a ddygwyddasant y diwrnod hwnnw.

1. Ar ddydd St. Bartholomew yn y flwyddyn 1572, yn yr hwyr, y cyflawnodd Catholiciaid Ffrainc un o'r cyflafanau mwyaf bradwrus, dychrynllyd, a barbaraidd ag sydd i'w gael yn holl hanesiaeth y byd. Mwrddwyd yn yr hwyr ofnadwy hwnnw oddeutu dwy fil o Brotestaniaid Paris, a elwid Hugonotiaid. Y flwyddyn honno oedd y bymtheg-fed o deyrnasiad Elizabeth, a'r drydydd-ar-ddeg i Charles IX., brenin Ffrainc, yr hwn oedd yn un o dri a gynlluniodd y gyflafan mewn cynadledd yn Bayonne yn 1565. Ei fam gyfrwys a dichellgar, Catharine de Medicis, a'r Duc d'Albe oedd y ddau arall. Y cyntaf a fwrddwyd oedd y dewr Coligni, arweinydd y Protestaniaid, yr hwn a dwyllwyd i Paris. Nid oedd dim llawer er pan oedd wedi ei glwyfo gan ddihiryn a amcanodd ei fywyd. Rhuthrodd y Duc o Guise i ystafell Coligni ac a'i brathodd â chleddyf. Rhoddodd ei ben i Catharine yr hon a'i danfonodd, wedi ei ber-eneinio, i Rufain. Dodwyd ei gorph i hongian mewn heiyrn ar grogbren Montfaucon trwy orchymyn y Senedd. Yr oedd ynddo lawer o gyrph gydâg ef yn hongian yn yr awyr. Aeth y brenin ei hun i weled yr olygfa ffiaidd. Cynghorwyd ef gan un o'i weision i beidio myned yn rhy agos o herwydd y drewdod. Ei ateb oedd, mai "arogl peraidd oedd sawr gelyn marw"! Mwrddwyd dwy fil yr hwyr hwnnw yn Paris yn unig—y brenin ei hun yn saethu i ganol y dyrfa o flaen porth y Louvre yn begian eu bywydau, a Catharine yn eistedd mewn ffenestr uwch ben yn chwerthin wrth waith y milwyr yn trywanu y trueiniaid diarfog. Ni arbedid neb, o'r henafgwr lawr i'r baban. Lladdwyd hefyd lawer o Gatholiciaid yn y tywyllwch, er fod y mwrddwyr yn cario llun y groes i'r dyben i adnabod eu gilydd. Parhaodd y mwrdd-dra saith niwrnod, nid yn Paris yn unig, ond yn Meaux, Troyes, Rouen, Bourges, Lyons, Thoulouse, ac mewn cannoedd o bentrefi bychain. Llywodraethwyr Provence, Dauphiny, ac un neu ddau arall wrthodasant ufuddhau i orchymyn y brenin. Mae llythyr Montmorrin, llywodraethwr *Avergne*, yn werth i'w adgoffa. "Syr," ebe efe wrth y brenin, "derbyniais lythyr dan sel y brenin yn gorchymyn i mi osod i farwolaeth

y Protestaniaid yn fy nhalaith. Mae genyf ormod o barch i'ch mawrhydi i gredu mai nid ffugiad yw y llythyr; ond os mai eich gorchymyn chwi yw (na atto Duw mai felly y mae), mae genyf ormod o barch i'ch mawrhydi i ufuddhau i'r llythyr." Dywed rhai haneswyr, ac yn eu plith Voltaire, i nid llawer llai na chan mil o Brotestaniaid gael eu mwrddo yn y gyflafan ofnadwy hwnnw trwy holl Ffrainc. Os nad cymmaint, yr oeddynt yn dyrfa fawr. Mae lle i gredu, oni buasai y weithred hon, y buasai Ffrainc y dydd heddyw yn wlad Brotestanaidd. Dywedir i'r Pab, Pius V., yr hwn oedd yn glaf ac a fu farw yn y flwyddyn honno, wylo pan glywodd am y gyflafan; ond am ei olynydd, Gregory III., dywedir iddo orchymyn i ddiolchgarwch cyhoeddus gael ei roddi i Dduw am y fath laddfa, ac iddo ddanfon ei genhadwr i longyfarch y brenin ar yr achlysur! Felly treuliwyd hwyr dydd St. Bartholomew, a'r saith niwrnod canlynol yn Ffrainc yn y flwyddyn 1572.

2. Hefyd, ar ddydd St. Bartholomew 1662, sef pedwar ugain mlynedd a deg wedi llofruddiad Protestaniaid Ffrainc, yr ymadawodd y "Dwy Fil" o Eglwys Loegr. Ant yn gyffredin dan yr enw hwn, onite yr oeddynt yn llawer rhagor—nid llai na dwy fil a phum' cant. Yn eu plith yr oedd llawer o weinidogion Cymru. Mae enwau oddeutu pedwar ugain o honynt yn y *Nonconformist Memorial* gan Dr. Calamy. Hwy yn ddiau yw tadau Anghydffurfiaeth yn y wlad hon, ac y maent wedi gosod ger bron y byd siampl o ymlyniad wrth egwyddor dan yr anhawsderau mwyaf—siampl teilwng o ddysgyblion Crist.

Paham yr ymadawsant â'r Eglwys Sefydledig? Yr oeddynt wedi cael eu hordeinio—y mwyrif o honynt—yn amser Cromwell, ac am hyny nid oeddynt wedi llawnodi *(subscribe)* erthyglau Llyfr y Weddi Gyffredin; nac unrhyw athrawiaethau crefyddol mwy na'u gilydd. Nid oedd ganddynt hwy, fel sy genym ni yn y dydd presenol, unrhyw wrthwynebiad neillduol i Stâd-Eglwys, ond yr oedd ganddynt wrthwynebiad mawr i *rwymo* eu hunain i gredu ac i ddysgu unrhyw athrawiaeth, er y credent ei bod yn wir. Yr oeddynt wedi gwneuthur cymmaint o gynnydd mewn rhyddid crefyddol â deall na fedd na phab, na brenin, na senedd, na chymanfa, hawl i beri i ddynion broffesu unrhyw athrawiaeth mwy na'u gilydd, ond i fod crefydd pob dyn yn beth sydd rhyngddo ef ei hun â Duw yn unig. Yr oeddynt wedi dysgu y wers hon yn eithaf llwyr, ond am y niwed a wna Stâd-Eglwys i wir grefydd, digon tebyg nad oeddynt wedi meddwl dim. Gwers i oesoedd diweddarach ydoedd hon, ond gwers ag y mae llawer, hyd yn nod o Undodiaid, eto heb ei dysgu. Wedi marwolaeth Cromwell, fel y gwyddoch, adferwyd breniniaeth yn mherson Charles II., yr hwn, er iddo dyngu yn Breda, pan ar fin hwylio i Loegr, y buasai iddo î ganiatau rhyddid crefyddol i'r Presbyteriaid a'r Annibynwyr, a dorodd ei lw. Gyda breniniaeth adferwyd hefyd Esgobaeth i'r eglwysi, oblegid "dim esgob, dim brenin." Y'mhen ychydig amser cafodd yr Esgobwyr yr hawl drechaf, ac ni fuont yn ol yn eu gwaith o ymddial ar eu gwrthwynebwyr y Presbyteriaid a'r Annibynwyr. Y peth cyntaf braidd a wnaethant oedd dyfeisio ffordd i symud o'r Eglwysi weinidogion Cromwell. I'r dyben hyn cawsant gan y brenin a'r Senedd i basio *Act*

yr Unffurfiaeth, sef *Act* i beri i bob offeiriad i lawnodi erthyglau Llyfr y Weddi Gyffredin, neu ynte i ymadael â'r Eglwys. Ar ddydd Sul, y 24ain o Awst, sef dydd St. Bartholomew, yr oedd yr *Act* i gael ei gosod mewn gweithrediad.

Diwrnod sobr oedd hwnnw! Dydd yn hanesiaeth y wlad hon nad anghofir mo hono tra parhao'r byd. Gweinidogion o bob oedran, a llawer o honynt yn berchen teuluoedd ieuainc, yn gorfod ymadael â'u pwlpidau a'u tai, gan daflu eu hunain yn hollol ar ragluniaeth Duw! Yr oedd cannoedd yn eu plith na wyddent pa le y celent hwy, na'u gwragedd, na'u plant, letty y nos honno, na boreufwyd drannoeth! Yr oeddynt yn hollol ddiymgeledd. Ni fu erioed ddynion yn ufuddhau yn fwy llwyr i argyhoeddiad cydwybod, nac yn taflu eu hunain yn fwy cyfangwbl ar ofal a chariad y Tad Nefol, na'r Dwy Fil a ymadawsant â'r Eglwys Sefydledig boreu dydd St. Bartholomew, 1662.

Yn ein barn ni, dylai ein gweinidogion wneud o leiaf gymmaint o sylw o'r dydd hwn yn eu pwlpidau â diwrnodau nodedig eraill yn y flwyddyn. Rhodda gyfleusdra hefyd i ddwyn ar gof i'w cynulleidfaoedd yr ymdrechiadau mawrion a wnaethpwyd gan ein teidau dros y rhyddid crefyddol ag ydym ni yn awr yn fwynhau. Er nad oes galw arnom ni, fel yr oedd arnynt hwy, i ymladd dros ryddid i addoli Duw yn gyhoeddus y modd, y pryd, a'r man y mynom, nid anfynych y dygwydd amgylchiadau yn ein dyddiau ni ag sydd yn gofyn llwyr ufudd-dod i argyhoeddiadau y gydwybod ac ymdrechion o'n tu, nid yn unig i gynal y rhyddid a fwynhawn, ond i'w helaethu, a'i draddodi i lawr i'n plant yn fwy perffaith nag y derbyniasom ef gan ein tadau. Unwaith bob saith mlynedd y dygwydd y pedwarydd-ar-hugain o Awst ar ddydd Sul, pryd na ddygwyddo felly, gellir cyfeirio ato y Sul canlynol. Os y dioddefir genym ddyweyd ein meddwl, byddai yn dda pe y gwnelem fwy o sylw yn ein pwlpidau o bethau o'r fath hyn. Mae amrywiaethau yn dihuno dynion—yn eu gwneuthur yn awyddus i wrando—tra mae unrywiaeth anerchiadau pwlpidol yn hala ein gwrandawyr yn fynych i gysgu dan y gair.

Y BLODAU.

Flodau tlysion, p'am y syrthiwch,
Chwithau newydd dd'od i'ch harddwch?
Nid yw'ch tymor wedi pasio,
Gellwch aros gronyn eto.

Newydd golli ôl y Gauaf
Ydyw'r coedydd sy brydferthaf;
Mae'n ymddangos fod brys arnoch,
Ai nid erys un o honoch?

Gresyn i chwi dd'od i'r amlwg
A myn'd ymaith oll o'r golwg;
Beth yw unwaith yn y flwyddyn
I gael syllu ar flodeuyn?

Rhai o honoch wisgodd allan
Cyn cyraeddyd eu llawn oedran;

Ai cipolwg a geir arnoch,
Wedi'r dysgwyl hir am danoch ?

Mae'r clogwyni llwyd a'r creigiau
O'r un agwedd drwy'r blynyddau ;
Chwithau'n cilio mewn un noswaith,
Ni cheir golwg arnoch eilwaith.

Rhai o'r dail sydd yn ymledu
Welant Hydref heb waethygu ;
Chwithau'n cilio ddechreu'r Gwanwyn,
Nid oes Hydref yn eich blwyddyn.

Gwelir ambell ddeilen unig
Galan Ionawr yn y goedwig ;
Gwywwch chwithau ar deg hinon,
Newydd gael eich gruddiau'n gochion.

Pwy ond Duw allasai'ch deffro
O gwsg Gauaf a'ch hardd wisgo ?
Ol ei fys a welir arnoch,
Pwy all wadu'i ofal trosoch ?

Tebyg ydyw'r einioes ichwi,
Mae prydferthwch hono'n colli ;
Syrthia lluaws mewn babandod,
Cyn cael profi Gauaf trallod.

Llanciau gwridog a gwyryfon
Ddifa angau â'i awelon ;
Cwympa'r rhei'ny i'r priddellau,
Wedi gwywo'n ail i chwithau.

Gwerthfawr ydyw pob rhyw ddeilen
A'r mân flodau ond eu darllen ;
Dysgant bawb i wel'd mai diwedd
Ddaw i bob peth er ei fawredd.

Os dymunwn i'n golygon
Weled coedydd bythol-wyrddion,
Ac os hoffwn gael arogledd
Blodau tlysion yn ddiddiwedd,

Rhaid cyfodi o'r byd yma
I'r tir hyfryd sy'n orphwysfa ;
Ni ddaw gwywder gwedd na marw
I awyr-gylch y tir hwnw.

CALEDFRYN.

YM MHA OLEU I GYMERYD BYWYD.

YM mhregethau *Mr. Stopford Brooke* mae y sylwadau canlynol ar y pwnc hwn:—

"Pan ar y cyntaf yn cymeryd i fyny ein lle, ac yn dechreu llafurio, yr ydym yn camsynied dyben ein bywyd. Yr ydym yn meddwl ein bod wedi ein danfon i'r byd i wneuthur ein hewyllys ein hunain, ac yr ydym yn gweithredu yn unol â'r meddwl. Yn ebrwydd mae ein holl waith yn myned yn hunanol : yr ydym yn llafurio ac yn ymdrechu er mwyn ein hunain ; ein hunain yw y diwedd sydd genym yn y golwg, a'r canlyniad yw ein bod yn canfod ein gwaith yn myned yn wael, ein golwg ar fywyd yn ddirmygus, a ni ein hunain yn ddynion canolig. Ond pan y cyfnewidia ein meddylddrych am ddyben bywyd ; pan y delom i wybod ein bod yma i wneuthur ewyllys Duw, ac mai ei ewyllys Ef yw cariad atom ni ac at bawb, mae cyfnewidiadau yn cymeryd lle yn ysgogiadau ein meddwl a dyben ein gweithredoedd. Yr ydym yn derbyn y dyledswyddau a

osodir arnom, ac nid ydym yn awyddus i'w gwneuthur yn hunan-foddhaol. Ein meddwl yw, 'Duw sydd wedi fy ngosod i yma, ac efe sydd yn dywedyd wrthyf am wneuthur hyn. Mae Efe yn iawn, ac y mae yn rhaid i wybodaeth a daioni i ddeilliaw i eraill os byddaf fi yn ffyddlon i'w ewyllys. Nid wyf fi ond offeryn yn ei law; trwof fi y gwna ei wyneb yn adnabyddus i eraill; trwof fi y cyflawna gyfran o'i lafurwaith dirfawr yn y byd.' Mae y meddwl hwn yn gweddnewidio ein golygiadau ar y byd; yn uniongyrchol mae gwaith yn dyfod anhunanol a sancteiddiol yn ei natur; bywyd yn dyfod yn fwy dyrchafedig; y caledwaith mwyaf cyffredin yn hardd; a drygfyd a dioddefaint yn ysgafn. Geilw y byd ni naill ochr i ganlyn pleser, i enill clod ac anrhydedd, i ymofyn ein hewyllys ein hunain ac i'w chael. Yr ydym yn dywedyd wrtho, 'Taw, yr ydym ni yn byw mewn dyfnach llawenydd nag a elli di wybod; mae genym ni ddybenion a chyffroadau llawer uwch nag a feddi di. Clod, anrhydedd—nid yn ein llaw ni y maent, ond yn llaw Duw. Fy ewyllys fy hun, yn wir! Yr wyf yn cael fy ewyllys fy hun pan yn gwneuthur ei ewyllys Ef.' Frodyr, pa mor fawreddog y byddai bywyd, pe y gallem droi ymaith oddiwrth demtasiynau i wneuthur ein hewyllys ein hunain, ac i ddyweyd wrth y temtwyr, hyd yn nod pe fyddent dad neu fam, yn ngeiriau Crist, 'Oni wyddoch fod yn rhaid i mi fod y'nghylch y pethau a berthyn i'm Tad?"

ARCHDDEON PALEY A IAITH YR APOSTOL PAUL.

Mae pregeth o'i eiddo (nad yw yn y rhai cyhoeddedig) sylwedd yr hon yw "Pwyll yn ofynol i ddefnyddio a chymhwyso iaith yr Ysgrythyrau." Mae yn bregeth ag sydd yn deilwng o sylw. Ynddi mae'r awdwr yn canlyn dull Locke o esbonio'r Epistolau, yr hwn o'i gario allan yn gyflawn a ddengys nodweddiad anapostolaidd y dduwinyddiaeth boblogaidd. Wele yn canlyn ychydig bigion o honi:—

"Yn yr amser y cyfansoddwyd yr Epistolau, nid oedd neb ond troedigion (*converts*) yn cael eu bedyddio. . . . . Am hyny nid oedd bedydd ond enw arall ar droedigaeth. Dyma beth oedd 'bedydd er maddeuant pechodau' a 'golchiad yr adenedigaeth.' Yn awr pan fyddom ni yn sariad am y bedydd a arferir yn bresenol yn y rhan amlaf o eglwysi Crist'nogol, pryd na feddylir fod troedigaeth yn bosibl, mae yn amlwg os cymhwysir yr ymadroddion hyn o gwbl, fod yn rhaid eu cymhwyso gyda llawer o gynilrwydd a chyfaddasiad."

"Yr oedd gwrthodiad yr Iuddewon a mabwysiad y cenhedloedd, yn bwnc, tra yr ydoedd yn myned yn y blaen, o'r maintioli a'r pwys mwyaf yn golwg yr ysgrifenwyr Sanctaidd y rhai oeddynt yn syllu arno ac yn ei ddirnad. Yn awr nid ydym ni yn unig ond yn darllen, a braidd hyny, am y cyfnewidiad mawr hwnnw a dynodd gymaint o sylw yr Apostol. Ychydig yn awr a wyddus am, ac ychydig o sylw a dalir i, bwysfawrogrwydd y ffaith. Yn colli golwg gan hyny ar achos priodol yr ymadroddion hyn, er hyny yn ewyllysio eu cyflwyno yn ol ein dull ni atom ein hunain, ac yn cael dim yn ein hamgylchiadau ag sydd yn gweddu iddynt, yr ydym wedi dysgu o'r diwedd eu cymhwyso at ein tynged olaf a dydd y farn."

"Troedigaeth dyn cyflawn oed o baganiaeth i Grist'nogaeth oedd gyfnewidiad na allwn ni yn awr braidd amgyffred. Yr oedd yn enw newydd, yn iaith newydd, yn gymdeithas newydd, yn ffydd newydd, yn obaith newydd, yn wrthrych addoliad newydd, ac yn rheol bywyd newydd. Eglurid hanesiaeth llawn o ddatguddiad a syndod. Cefid blaenolygiad o'r byd dyfodol ynddo ei hun yn hardd a mawreddog. . . . . Yr oedd yn ailenedigaeth, yn farwolaeth i bechod, yn greadigaeth newydd. Nis gallwn ni yn awr brofi un troedigaeth yn gyfartal nac yn gyffelyb i droedigaeth eilunaddolwr, er hyny yr ydym yn defnyddio yr un fath iaith—iaith Paul,

a pheth yw y canlyniad? Un math o ddynion, yn canfod dim yn mywydau Crist'nogion ag sydd yn cyfateb i fawreddogrwydd yr ymadroddion hyn, a demtir i gasglu nad oes i'r ymadroddion un sylfaen mewn gwirionedd a natur, nac mewn dim ond ym mrwdfrydedd eu hawdwyr. . . Tra mae cefnogwyr sobrach esboniad yn cael eu herio â'r gofyniad—'Os nad yw ymadroddion yr Ysgrythyrau yn meddwl *hyn*, beth ynte yw eu mheddwl?' Ein hateb yw 'Dim,' dim, hyny yw i ni, dim i'w gael neu i'w ymofyn yn sefyllfa bresenol Crist'nogaeth."

"Mae yn ddyledswydd ar bawb sydd yn cymeryd arnynt i esbonio yr Ysgrythyrau, cyn y penderfynont i bwy neu at beth mae yr ymadrodd neu y frawddeg yn gymhwys yn y dyddiau hyn, i ystyried yn fanwl p'un a yw o gwbl yn caniatau y fath gymhwysiad; neu ynte p'un a ydyw yn hytrach i gael eu cyfyngu yn hollol i'r amgylchiadau a'r achos am ba rai y defnyddiwyd hwynt gyntaf."

Trindodiaeth mewn dyryswch.—Os y glynwn yn dŷn wrth lythyren yr Ysgrythyr, ac y gosodwn bwys manwl ar eiriau, gorfyddir ni i gydnabod Moses fel person yn y Drindod (Exod. iv., 16, a vii. 1), ac y dylid gweddio arno i faddeu pechodau (Exod. x. 16, 17, Num. xii. 11). Iddo ef hefyd fel i Dduw y priodolir y gwaith o waredu Israel o'r Aipht (Exod. xxxii. 7, xxxiii. 1). Dywedir fod yr Israeliaid yn credu ynddo fel yn yr Arglwydd (Exod. xiv. 31, xix. 9). Beiddiodd addaw gwlaw i'r sawl a gadwent ei orchymynion (Deut. xi. 13—15). Mae yn addaw bod gyda Joshua i arwain yr Israeliaid i Ganaan, er ei fod wedi marw cyn i Joshua gymeryd yr arweiniaeth (Deut. xxi. 23). Gwnaeth wyrthiau, gan ddatgan ei fod yn eu gwneuthur fel y gwybyddai Israel mai efe oedd yr Arglwydd eu Duw (Deut. xxix. 5, 6). I Dduw yn unig yr oedd y prophwydi, ond yr oedd gan Moses brophwyd sef Aaron, am hyny yr oedd Moses yn Dduw (Exod. vii. 1). Ac i Moses y bedyddiwyd yr Israeliaid yn yr anialwch (1 Cor. x. 1, 2). A rhesymau cyffelyb i'r rhai hyn y profa y Trindodwyr dduwdod Crist. Oni ddylent ganiatau fod yr un fath resymau yn profi fod Moses hefyd yn Dduw? Yn wir mae y rhesymau yn yr adnodau hyn yn gryfach dros dduwdod Moses, na'r rhai a ddygir i brofi duwdod Crist. Am hyny, os yw Crist yn Dduw, mwy o lawer mae Moses yn Dduw, ac yn lle tri pherson yn y drindod dylai fod pedwar—y Tad, y Mab, Moses, a'r Ysbryd Glan. Pwy ryfedd fod Trindodiaeth yn creu Deistiaid?

DIFRIFOLDEB.

Mae y gair hwn yn fynych ar ein tafodau. Beth sydd i'w ddeall wrtho? Dywedwn am ddyn a fyddo yn ymroddi i'w waith, beth fynag fyddo, a'i holl ddeall ac â'i holl egni, ei fod yn ddyn difrifol. Difrifoldeb, ynte, yw llwyr ymroddi i gyflawniad y gwrthrych neu y gorchwyl a gymerir mewn llaw. "Beth bynag a ymafla dy law ynddo gwna â'th holl egni," medd y gwr doeth.

Nid oes dim amheuaeth nad yw difrifoldeb yn gyneddf o ddidd natur. Mae rhai dynion yn naturiol yn fwy difrifol nac eraill, ond fel pob cyneddf arall, mae yn un a ellir ei meithrin a'i gwella i raddau pell iawn. Nid oes neb na all gynnyddu mewn difrifoldeb.

Cyn bod yn ddifrifol mae yn ofynol fod dyn yn caru yr hyn sy'n iawn mewn gair a gweithred. Mae pob math o dwyll yn gas yn ei olwg. Felly hefyd mae

yn casau y chwenychiad sydd gan lawer i ymddangos y peth nad ydynt mewn gwirionedd. Am hyny er mwyn bod yn ddidwyll, yn gywir, yn onest, mewn gair yn iawn, mae pob dyn difrifol yn talu sylw dyledus i'r peth gymero mewn llaw. Ni fyn lai nac ymddwyn yn gydwybodol ger bron Duw a dynion.

Mae difrifoldeb yn un o briodoleddau y cymeriad dynol, ac yn elfen anhepgorol i ymddiried. Nis gallwch ymddiried i ddyn a fyddo yn ddifater gyda golwg a'r hyn sydd iawn. Os gweithiwr yw, mae yn sicr o dwyllo ei feistr pan gaffo gyfleusdra. Dywed gelwydd hefyd os bydd yn taro ei dro yn well ar y pryd na'r gwirionedd. Dyma nodweddiad dyn sydd yn amddifad o ddifrifoldeb. Nid oes ynddo ddim sydd yn creu ac yn teilyngu ymddiried. Ni allwch osod ffydd yn y fath ddyn. Difrifoldeb yn unig sydd yn creu ymddiried.

Hefyd, mae difrifoldeb yn un o brif elfenau llwyddiant. Beth bynag fyddo'r alwedigaeth, cyn y llwyddir ynddi, rhaid gosod yr holl feddwl arni ac ymroddi iddi yn llwyr. Dyma yr unig ffordd i orchfygu anhawsderau, ac nid oes un grefft na galwedigaeth nad oes ynddi ryw anhawsder na ellir gael y trecha arno heb fod dyn yn difrifol yn ei waith. Pwy sydd yn dod yn grefftwr da, onid y dyn difrifol —pethau eraill, wrth gwrs, yn gyfartal. Pwy yw yr ysgolhaig goreu, y cyfreithiwr goreu, y meddyg goreu, y pregethwr goreu, y morwr goreu, y milwr goreu? Y dyn sydd yn ddifrifol yn ei waith, oblegid mae difrifoldeb yn sylfaen diwydrwydd.

Yn olaf, mae difrifoldeb hefyd yn ofynol i ddyn yn ei grefydd. Nis gall y dyn difater wneuthur cynnydd mewn rhinwedd a duwiolder, mwy nag mewn pethau tymhorol, I wneuthur cynnydd mewn duwiolder rhaid cael cydwybodolrwydd, ac nis gellir meithrin y gydwybod heb fod dyn yn ddifrifol yn ei grefydd. Nid anhawdd yw adnabod yr aelod difrifol yn yr eglwys. Mae yn rhoddi anogaeth i bob gwaith da ynddi. Nid yw byth yn oer a difater, nid yw ychwaith yn absenoli ei hun o'r cyfarfod oni fydd rhyw achos neilldnol iawn. Nid oes neb yn fwy ymdrechgar gyda phob gwaith da. O'r Ysgol Sul nid yw byth yn absenol. Os yw yn deall canu, ei ymdrech yw annog yr ieuainc i gwrteithio y dawn a gwella y canu yn yr eglwys. Mewn gair, mae y dyn difrifol yn y gynulleidfa, beth bynag fyddo ei amgylchiadau bydol, nid yn unig yn gwneuthur ei oreu dros yr eglwys, ond fel aelod o honi yn amnhrisiadwy werthfawr yn ol yr hyn a allo. Difrifoldeb y'nhob peth; nid oes dim sydd werthfawroccach. Gweddiwn a llafuriwn am fwy o hono yn y galon.

Aberdâr. EIDDIL CYNON.

HEN LYTHYRAU O GYMRU.

LLYTHYR X.

[At Mary Powell, Pencader, America.]

Bargod, Rhag. 12, 1725.

Fy Anwyl Chwaer:—Mis i heddyw y daeth eich llythyr i ben ei daith. Yr oedd yn ddrwg gan bawb o honom glywed am afiechyd Tomos eich gwr, ond yr ydym yn gobeithio ei fod wedi gwella yn hollol erbyn hyn. Y mae nhad yn cofio am danoch bob dydd yn y weddi deuluaidd. Nid wyf yn meddwl fod tad yn y wlad yn teimlo yn fwy tyner dros ei blant, ac nid dros eu cyrff yn unig, ond dros eu heneidiau hefyd. Y mae yn teimlo llawer dros y gwasanaeth-ddynion. Y mae'r holl gymydogaeth yn dweyd fod bechgyn a merched gwyllion yn dod yn rhai araf a phwyllog ar ol myned i'r Bargod i wasanaethu. Y mae nhad yn treulio un pen i'r Sabboth i ddysgu y teulu. Pan fyddo Mr. Lewis yn Pencader y bore yr ydym yn darllen y Beibl gartref yn y bore, a nhad yn ein cwestiyno ynddo, ac yn myned i Pantycreuddin y prydnawn a'r nos i'r cyrddau pregethu. Ond pan fyddo ef yn Pantycreuddin y bore, yr ydym yn darllen gartref y prydnawn, ac yn cadw cwrdd gweddi y nos oddeutu y tai. Y mae nhad,

fel y gwyddoch, yn ddarllenwr mawr, ac yn gwybod llawer; ac y mae yn siarad llawer â ni ar bryd bwyd, ac oddeutu y tan cyn swper yn y gauaf, yn amser nos hogi y cynhauaf, ac ar amserau ereill; ac y mae hyny yn gwneyd llawer iawn o les i ni. Y mae ef bob amser yn siarad mewn natur dda, ac yn llawen, yr hyn sy'n peri fod y gwasanaeth-ddynion yn hoff iawn o hono. Buasai yn dda genyf pe buasai mam yn meddu cystal natur a nhad; ond y mae hi yn para i fagneithia fel yr oedd, os nad dipyn yn waeth; ond yr wyf yn ymdrechu fy nghoreu i fod yn dawel, a gadael iddi heb ddweyd dim yn ol wrthi, na bod yn anghad arni, er pan aethom at grefydd; oblegid mae yn fam dyner a gofalus iawn, er fod yn rhaid iddi gael ceintachu tipyn boh dydd, Y mae hi, fel ei hewyrth, yr hen Lwyd, Pantstreimon, yn fawr am reoli a threfnu. Yr wyf yn barnu fod y rhai sy'n dyfod o hen waed boneddigion yn fwy tueddol i hyny na neb.

Y mae Jenkin Jones wedi priodi etifeddes Pantydefaid. Y mae Mr. Lewis ac yntau yn methu cydweled o hyd, ac y maent wedi preinto bob o lyfr yn erbyn eu gilydd. Nid yw Jenkin yn cael pregethu yn Pantycreuddin a Pencader, ond y mae yn cael pregethu weithiau yn Llechryd, Llanybri, a Chaerfyrddin, ac y mae yn pregethu gartref yn Pantydefaid, ac yn son am godi ty cwrdd newydd iddo ef a'i gyfeillion.

Y mae William Rees, Penrhiw, wedi dyfod adref o Gelliaur, ac y mae wedi dechreu cadw cwmni i fi. Bachgen gwybodus iawn ydyw, ac y mae mor llawen a'r gog wedi i chwi ddod yn gyfarwydd ag ef. Bum i ac yntau yn ordinasiwn un o'r enw David Sais yn Llechryd yr wythnos ddiweddaf, ar gefn pob o geffyl. Buom oddi cartref ddau ddiwrnod. Bum i a'm ceffyl yn aros un noswaith mewn lle o'r enw Parc-cwningod. Yr oedd Lewis ni, Pugh, Llwynpiod, ac ereill yn pregethu yn dda iawn yno. Ond y penaf glywais i yn fy mywyd oedd pregethwr ifanc o'r enw Lewis Jones. Yr oedd yn bleser gwrando hwnw.

Y mae barn Duw yn parhau i ddilyn teulu Blaenycwm o hyd. Y mae John y mab yn y ddalfa. Fel hyn y bu. Yr oedd Mr. Lewis y Gernos, ac amryw ereill, yn colli defaid yn awr ac yn y man, er ys llawer o amser, ac yr oedd ef ac eraill wedi bod yn cadw gwyliadwriaeth am dro hir heb weled neb. Ond un noswaith, fel yr oedd ef a'i ddau was, a'r deiliaid allan yn rhoi tro, cawsant olwg ar ryw un yn cario llwdn ar ei ysgwydd; aeth y pedwar o'i amgylch heb yn wybod iddo, a phwy oedd yno ond John Blaenycwm. Pan welodd eu bod yn amcanu ei ddal, tallodd y ddafad i lawr, a dechreuodd redeg, ond cafodd Twm y gwas afael arno. Yr oedd gan John gyllell lladd moch mawr, a brathodd Twm â hono, erbyn hyny darfu i'r gwas arall daro John i lawr â phastwn, a daliwyd ef yn y fan. Yr oedd wedi brathu Twm yn ei frest mor ddrwg, fel na bu ef fyw ond pedair awr. Yr oedd wedi cynyg brathu y gwas arall hefyd, ac aeth blaen y gyllell i'w fraich, ond ni chafodd nemawr o niwed. Wrth chwilio yn Blaenycwm, cafwyd o hyd i lawer o grwyn defaid, ar daflod y beudy, ac yr oedd y nodau arnynt yn profi ei fod wedi lladrata dwy o'n defaid ni. Anfonwyd ef i Aberteifi i'r carchar. Ond bu agos iawn iddo dori twll yn y wal, a dianc oddiyno, un noswaith.

Dyna Sessiwn ryfedd fu ar ei fater ef. Yr oedd ei fam wedi addo arian mawr i Meurig y Bush, cyfreithiwr melldigedig Sir Benfro, am ei achub ef. Ond yr oedd y peth mor amlwg yn ei erbyn; a Lewis y Gernos; Lewis, Pantyrodyn; Llwyd o Fronwydd; Llwyd, Dolhaidd; Llwyd y Cilgwyn; Llwyd, Gilfachwen; a boneddigion eraill, mor benderfynol dros ei grogi, fel y methodd Meurig yn deg a'i ryddhau. Dywedir ei fod wedi gwobro y barnwr, ond dcallodd hwnw y buasai y boneddigion yn myned â'i fater i Lundain, a chafodd ormod o ofn gwyro barn, er iddo ddangos cetyn o ochr i'r mwrddwr. Dywedir hefyd i fod Meurig wedi addo pob o boeded dda i'r *jury* am ei rhyddhau, ond gwnaeth y *Foreman*, yr hwn sy'n ddyn da, ac

yn aelod yn Cilgwyn, rwystro y cynyg melldigedig hyny. Bum i yn Aberteifi am bedwar niwrnod, a chlywais y cyfan. Dr. Williams, Dolgoch, oedd y Siryf, a gan fy mod yn gydnabyddus ag ef, mi gefais bob chwareu teg i wrando o'r dechreu i'r diwedd. Bu nhad yno ar ei lw yn tyngu at grwyn ein defaid ni. Yr oedd rhyw aeth yn myned trwy fy nghalon i wrth weled y gyllell â'r hon y brathwyd Twm druan, yn cael ei dangos yn y llys. Yr oedd John yn dal yn galed ofnadwy. Nis gallswn lai na cholli y dagrau fel y gwlaw pan oedd y barnwr y cyhoeddi y farn arno, ond yr oedd yntau ei hun fel y gareg. Cyhoeddwyd ei fod i gael ei golli yn mhen ugain niwrnod. Parhaodd yn gyndyn am bythefnos, gan ballu siarad dim á neb, nes y daeth y newydd yn ol o Lundain nad oedd un pardwn i'w gael iddo; ac yna fe dywedodd ei fod am weled Lewis, Dinas Cerdin, ac Enoch Francis, gweinidog yr Ailfedyddwyr. Aeth y ddau ato gyda eu gilydd. Fe ddywedodd wrth y rhai hyny ei fod yn gwybod ei fod yn haeddu ei grogi am ladd Twm y Gernos, ond nad oedd ef ddim wedi meddwl lladd hwnw, ond mai yn ei wylltineb wrth geisio dianc y cyflawnodd ef y weithred, ac y buasai yn dda ganddo pe buasai heb wneyd y peth. Ond ei fod ef yn gwybod fod pethau oedd ef wedi wneyd o'r blaen yn galw am ddial ar ei ben. Yna cyfaddefodd ei fod wedi helpio ei dad i ladd dyn oedd wedi bod yn Lloegr yn gwerthu da cyn iddynt symud yma o Sir Gaer, a'i helpio i ladd a chladdu McDonald y Scotshman; a chyfaddefodd mai efe a laddodd Gweni y forwyn, yr hon y meddyliai dynion ei bod wedi myned i blith y tylwyth teg. Yr oedd ef wedi ei thynu dros y ffordd, ac yr oedd hithau dan ei gofal, ac i gael cuddio y peth, aeth i gwrdd a hi i lan Teifi y noswaith aeth i golli, wedi dyeithrio ei hunan, tarawodd hi â phastwn ar ei phen, nes y cwympodd yn swp i'r ddaear, ac yna clymodd gareg fawr wrthi, a thaflodd hi i'r afon. Cyfaddefodd fod ei dad ac yntau wedi tori ty offeiriad Llandysil, a thori siop yn Castellnewydd, ac mai efe fu yn ceisio gosod Penrallt ar dân; a llawer o bethau drwg eraill. Ceisiai gan y ddau weinidog weddio drosto, ond pan ddywedent wrtho am weddio ei hunan, dywedai nas gallai, a'i fod yn ormod o bechadur i feddwl cynyg gweddio. Dywedai wrth Mr. Lewis, " O, Mr. Lewis anwyl! 'nhad 'nystrywiodd i, a bydd fy ngwaed i ar ei ben ef byth! Pe buaswn fab i Morgan y Bargod fuaswn i ddim fan hyn heddyw." Gwnaeth Mr. Lewis a Mr. Francis eu goreu i'w gael yn edifeiriol am ei bechodau, a'i gyfeirio at Iesu, Oen Duw, yr hwn sy'n tynu ymaith bechodau y byd. Ond yr oedd ei feddwl yn dywyll a thruenus iawn, ac nid oes ganddynt nemawr o obaith am dano. Fe aeth lluoedd o'r gymydogaeth hon i'w weled yn cael ei grogi. Bum inau yn meddwl myned, ond perswadiodd William Rees fi i beidio. Fe fu Cati yr Alltgoch yno, ac yn awr cynted y cauo hi ei llygaid yn y nos, y mae'n gweled John Richards yn cael ei grogi, ac y mae'n 'sgrechian mewn dychryn mawr, ac yn methu cysgu, a bron myned yn ddwl. Yr wyf yn teimlo yn ddiolchgar yn awr nad cuthum i ddim yno. Ond os yw John wedi cael ei grogi, nid yw ei eppil wedi darfod o'r byd. Y mae ganddo fab pythefnos oed ar ei ol. Yr oedd wedi tynu Sian y forwyn, croten o blwyf Llanarth, dros y ffordd, ac y mae pawb yn credu y cawsai hono fyned i ryw ffordd tebyg i Gweni druan, pe buasai heb gael ei ddal am rai dyddiau yn hwy. Deuwyd a chorff John i'w sibedo o flaen tir y Gernos; a dyna lle mae holl grytiaid bugeilio yr ardaloedd yn treulio eu hamser yr haf hwn, i daflu cerig at ei gorff.

Bu farw William, mab Pantybrwyn, tua thair wythnos yn ol, wedi bod yn hir nychu mewn rhyw glefyd newydd o'r enw comsinsiwn, neu ryw beth tebyg. Cafodd ei gladdu yn Llanwenog, yr un man a'r tylwyth. Cwn bendith y mamau sydd yn arfer myned o flaen teulu Pantybrwyn, a dyna aeth o'i flaen yntau. Bu Jenkin Jones, Pantydefaid, o gartref yn eu canol. Yr oedd ef ar gefn ei geffyl yn dod adref y nos, wedi bod yn pregethu. Yn ddisymwth

dechreuodd y ceffyl ffroeni a thascu yn enbyd, ac yntau yn ei gymhell yn mlaen. Ond yn y man fe welodd ei hunan y'nghanol haid o gwn. Ceisiodd eu gyru ymaith â'r whip, ond ni wnelent sylw yn y byd o hono. Neidiodd i lawr a dechreuodd guro rhai o'r cwn mwyaf, ond yr oedd ei whip yn myned trwyddynt i'r llawr bob ergyd. Yr oedd Jones o'r blaen yn gwadu nad oedd dim o'r fath i'w gael, ond y mae 'nawr yn gorfod cyfaddef fel arall. Yr oedd yno bedwar o gwn mawrion, a dwsin neu ddwy o gwn bychain gyda hwy. Byddai y cwn bychain yn galw yma a thraw ar hyd y ffordd yn wanaidd, ond pan ddelent i groesffordd, neu ryw fan neillduol, byddai y cwn mawrion yn galw, a llais cryf a threiddiol fel bytheuaid cadno mawrion. Clywodd llawer hwynt ar hyd ffordd Eglwys Llanwenog y noswaith hono.

Lled bylog yw nhad o hyd, ond y mae yn lled sionc yr wythnos hon, ac yr wyf yn gobeithio ei fod yn myned i gael iechyd o well. Y mae'r lleill o'ch teulu yn iach.

Eich caredig chwaer,

ANNA BEYNON.

YR ARTH.

YR EIRTH ydynt greaduriaid cryfion a thra ysglyfaethus; ac er eu bod wedi eu difrodi yn llwyr mewn rhai gwledydd, lle y mae y tir yn cael ei lafurio, a choedwigoedd anial yn cael eu tori i lawr, eto y maent i'w gweled yn fynych yn mharthau gogleddol Europe, ac y mae cyflawnder o honynt yn Affrica, a rhanau o'r America, lle mae y trigolion yn anaml. Y mae amryw rywogaethau o honynt yn gwahaniaethu yn eu lliw, eu maint, a graddau eu ffyrnigrwydd; rhai yn dduon, rhai yn llwydion, eraill yn wynion; ond y maent oll yn tebygu yn fawr i'w gilydd yn eu tymerau a dull eu cyrph. Ym mysg y casgliad mawr o fwystfilod sydd yn y gerddi a berthynant i Gymdeithas y Mildreithwyr *(Zoological Society)*, yr oedd arth fawr o'r rhywogaeth lwyd-las, yr hon yw y rhywogaeth fwyaf ffyrnig o honynt oll. Y rhai hyn yw y gwylltfilod mwyaf dychrynllyd yn yr America Ogleddol; ac y mae hyd yn nod yr Indiaid, y rhai ydynt gynefin a phob peryglon, yn eu harswydo, ac yn ffoi rhagddynt. Gorchwyl anhawdd iawn yw lladd y creaduriaid hyn; ac os na bydd ond un Indiad yn ymosod ar yr arth, bydd yn debyg iawn o ddianc, er i'r Indiad fod wedi ei arfogi â dryll. Lewis a Clarke, dau deithiwr calonog yn ardaloedd mwyaf anial Gogledd-dir yr America a roddant ddarluniad o ymladdfa âg arth o'r rhywogaeth lwyd-las. Aeth chwech o helwyr i ymosod arni, a thaniodd pedwar, a chlwyfwyd hi gan bob un o'r pedwar. Taniodd y ddau arall oeddynt heb saethu, a chlwyfasant hi pan oedd yn rhedeg atynt; ond cyn iddynt gael amser i ail lenwi eu drylliau, yr oedd yr arth ar eu gwarthaf. Ffodd y ddau hyn tua'r afon; ond y pedwar eraill, y rhai a ymguddient wrth gefn pren, a saethasant eilwaith, ac a'i clwyfasant. Trodd hithau tuag atynt, a gorfu arnynt neidio i'r afon, dros geulan ugain troedfedd o uchder. Dilynodd hwynt i'r afon; ac oni buasai i un o'r ddau ddyn oeddynt ar y lan ei saethu drwy ei phen, buasai y nofiwr olaf yn debyg o gael achos i edifarhau am ei ryfyg yn ymosod ar y fath elyn galluog.

Nid yw yr eirth llwydion a gyfaneddant yn mharthau Gogleddol Europe, mor greulon a ffyrnig eu natur âg eirth llwyd-leision yr America; ond y maent yn gryfion anngyffredin. Dywed Mr. Lloyd yn Hanes Helwriaethau y Gogledd, y gall yr eirth llwydion gerdded ar eu traed ol, ac y gallant gludo beichiau trymion iawn yn yr agwedd hono; ac y mae Mr. Neilson, gwr genedigol o Sweden, yn dywedyd fod rhai dynion wedi gweled arth yn cario ceffyl marw yn ei phalfau blaen, dros bren oedd wedi ei daflu yn groes i'r afon.

Y mae Mr. Lloyd yn yr un hanes yn adrodd y dygwyddiadau canlynol a gymerasant le mewn eirth-helwriaethau yn Ngogleddbarth Europe.

Yn 1790, arweiniwyd i'r ddamwain a ganlyn gan yr hyn a eilw yr helwyr yn *skall*, sef amgylchyniad rhandir gan gyfres o bersonau, a gyru yr holl anifeiliaid, trwy amgload, i ganolbarth :—Un dyn, hen filwr, wedi ei gysylltu wrth yr *hallet*, neu raniad gorsafawl o'r *skall*, a dybiodd yn briodol osod ei hun o flaen y gweddill, ac oddiar ei wybodaeth am y wlad, tybiodd mai trwy y llwybr hwn yn ol pob tebygrwydd y cerddai yr arth. Yr oedd yn iawn, oblegid gwnaeth yr anifail ei ymddangosiad yn fuan ar ol hyny, a gwynebodd yn union-gyrchol tuag ato. Ar hyn anelodd, ac ymdrechodd ollwng ei ergyd allan, ond o herwydd gwlybaniaeth y boreu hwnw, methodd a thanio, trwy fod y powdr yn llaith. Yr oedd yr arth erbyn hyn ar ei warthaf, er y mae yn debygol y buasai yn hawdd iddo ddianc, pe buasai ond cilio at un ochr, ond yn lle gwneuthur defnydd o'r cyfrwysder hwn, ceisiodd yru ei ddryll, wrth yr hwn pa fodd bynag nid oedd un bidog yn gysylltiedig, i lawr i wddf y bwystfil llidiog. Ond gwrthwynebodd yr arth yr ymosodiad hwn gyda'r deheurwydd a'r medr mwyaf nodedig; pryd ar ol cipio y dryll allan o law y dyn, taflodd ef ar ei hyd ar y ddaear. Buasai y cyfan er hyny yn diweddu yn dda; ond ar ol arogli ei gwrthwynebwr yr hwn a orweddai yn llonydd, gan ddal ei anadl fel pe buasai yn farw, a'i gadawodd heb wneuthur iddo un niwaid. Ac yna aeth yr anifail at a dryll, yr hwn nid ydoedd ond dwy neu dair o droedfeddi oddiwrthynt, ac a ddechreuodd ei drin a'i phawenau. Yr oedd y milwr druan, pa fodd bynag, wedi dwyn y drull i'r *skall* yn groes i orchymynion y swyddogion, a chan wybod os niweidid ef, y cosbid ef yn llym am hyny, ac wrth weled y perygl, yn ol pob ymddangosiad yr oedd ynddo, estynodd allan ei law yn arafaidd, ac ymaflodd yn un pen iddo, a'r arth yn gafaelyd yn dyn wrth y llall. Wrth weled yr ysgogiad hwn, a fod y dyn mewn caulyniad yn fyw, ymosododd yr arth arno drachefn; a thrwy afaelyd ynddo a'i danedd gerfydd y tu ol i'w ben, tra y gorweddai ar ei wyneb ar y ddaear, drylliodd ymaith holl groen ei ben, o'i wegil i fynu nes y crogai dros ei dalcen gerfydd darn o groen, y creadur truenus yn gwybod fod ei ddiogelwch yn ymddibynu ar ei arosiad yn llonydd, a orweddai mor ddystaw ag y gallai; a'r arth heb wneuthur llawer o niwaid pellach iddo a orweddodd ar ei gorph. Tra yr ydoedd hyn yn myned yn mlaen, llawer o'r bobl, ac yn mysg eraill, Cadben Eurenius, gan dybied yr hyn a ddygwyddodd, a brysurasant tua'r llanerch, o fewn o ddeg i bymtheg o gamrau i faes yr ymdrechfa: yno y gwelent yr arth eto yn gorwedd ar gorph y milwr truan: yr oedd

ar brydiau yn llyfu asgwrn pen noethlwm y dyn, a phryd arall yn llygadu ar y dynion ; yr oedd pawb, pa fodd bynag, yn ofni tanio, trwy eu bod yn meddwl y gallent naill ai taro y dyn, neu ynte hyd yn nod er iddynt ladd yr arth, y gallai hithau yn ei phangfeydd diweddaf gigyddio ychwaneg ar y dyn anffodus. Y mae Cadben Eurebius yn dywedyd i'r milwr a'r arth aros yn y sefyllfa hon am hir amser, nes o'r diwedd y gadawodd y diweddaf ei ysglyfaeth, ac y dechreuodd encilio yn raddol, pryd y gollyngwyd llifeiriant dychrynllyd o ergydion ati, ac y syrthiodd i lawr yn farw. Wrth glywed yr ergydion neidiodd y milwr truan ar ei draed, a chroen ei ben yn crogi dros ei wyneb, nes ei hollol ddallu ; ac ar ol ei daflu yn ol â'i law, rhedodd tuag at ei gymdeithion, fel dyn wedi ymgynddeiriogi, gan lefain, "Yr arth, yr arth!" yn y modd mwyaf gwallgofus. Ond pa fodd bynag, yr oedd y drwg wedi ei wneuthur, ac felly yn anwelladwy. Rhoddwyd iddo bob cynorthwy oedd bosibl, gan feddyg a ddygwyddodd fod yn bresenol, yr hwn a dorodd yr ychydig groen a ddaliai y cnawd crybwylledig yn gysylltiedig â'r talcen ; ac ymgeleddwyd y briw yn y modd goreu y medrai. Dywedai Cadben Eurenius fod y croen hwn ar ol ei wahanu oddiwrth y pen, yn tebygu yn hollol i ferwig. Ar un ystyriaeth bu yr anffawd yn ffortunus i'r milwr truan. Yn yr amser hwn, bu orfod i bob un yn y fyddin wisgo ei wallt mewn ffurf neillduol, ac mewn canlyniad, o herwydd ei fod yn bresenol heb ddim, cafodd ei ryddâd yn ddioed.

Mewn *skull* arall, ar ol i'r arth gael ei gorfodi i wneuthur prawf o'i holl noddfeydd, a thrwy gael ei hymlid gyda ffyrnigrwydd, yr oedd yn cael ei chwyldroi o amgylch o'r naill ochr i'r llall, er amddiffyn ei hun rhag ei gelynion lluosog, llawer o'r rhai a daflodd i lawr ; a buasai yn eu niweidio oni bai fod asgwrn ei gen wedi ei dori yn flaenorol gan fwleden. Yn mysg y cymdeithion, yr oedd gwraig i filwr yr hon ydoedd ddynes nerthol oddeutu deugain oed, ac a hynodold ei hun yn yr amgylchiad. Gan ddymuno cael rhan o anrhydedd y dydd, arfogodd ei hun â phastwn cryf, gyda'r hwn ni phetrusodd roddi dyrnod erchyll i'r arth druan ar ei phen. Ond pa fodd bynag ni thybiodd yr anifail fod y driniaeth yn berffaith deg ; ac heb hollol ddcall y parch dyledus i'r rhyw, a ddanfonodd ei sodlau i'r man y dylasai ei phen fod, er difyrwch nid bychan i'r edrychwyr. Ond heb arswydo yn y radd leiaf, trwy yr hyn a ddygwyddodd, cyfododd y ddynes fastwn arall, gan fod y cyntaf wedi ei dori trwy rym y ddyrnod, a dechreuodd guro yr arth drachefn ; dialeddodd y bwystfil fel ar y cyntaf, trwy roddi dymchweliad iddi eto. Ond er hyny ni foddlonwyd ein gwrones ; oblegid ymaflodd mewn bastwn arall y drydedd waith (yr oedd yr ail fel y cyntaf wedi ei dori yn ddim) ac adnewyddodd ei hymosodiadau ar yr arth, ac fel ad-daliad, cafodd gyflawni y trydydd chwyldro yn yr awyr. Yr arth, wedi cael ei gorchfygu yn dêg, trwy glwyfau a cholliad gwaed, a syrthiodd i lawr yn farw yn nghanol bloeddiadau ei gelynion.

Ar brydnawn Sabbath, tra yr oedd dau neu dri o blant yn porthi anifeiliaid ar ochr y mynydd, yn nghymydogaeth Grass, yr hwn sydd bentref bychan yn gorwedd tuag un-ar-bymtheg neu ddeunaw o filldiroedd i'r de o'r fan lle yr wyf yn trigo, rhuthrodd arth fawr yn ddisymwth i'w canol hwynt. Lladdodd yr arth yn gyntaf ddafad a

ddygwyddai ddyfod yn ei ffordd, ac yna anner o dyfiant rhagorol : ac yna cludodd y ddiweddaf, er gwaethaf bloeddiadau y plant, dros argae o bedair i bum troedfedd o uchder, pryd y collwyd pob golwg yn fuan arno ef a'i ysglyfaeth yn nghanol y prysglwyni. Yn bresenol, casglodd y plant y gweddill o'u gofal yn nghyd, a gwnaethant y goreu o'u ffordd tua Grass, lle yr oeddynt yn trigo.

Gan fy mod yn adrodd am ymosodiadau yr arth ar anifeiliad, dygir ar gof i mi hanesyn a adroddwyd wrthyf gan Jan Finne. Dywed ef i'r amgylchiad gymeryd lle rai blynyddau yn ol, o fewn oddeutu dim llai nag ugain milltir oddiwrth Stjern : " Ymosodwyd ar darw yn y goedwig gan arth lled fechan o ran ei maintioli, pryd y tarawodd ei gyrn yn erbyn ei wrthwynebydd, a phiniodd ef yn erbyn coeden. Yn y sefyllfa hon y caed hwy yn feirw; y tarw o newyn, a'r arth trwy archollion."

Y BALLOT A'R SENEDD.

Yn groes i ddysgwyliad llawer oddiwrth yr eisteddiad Seneddol eleni mae ein *Meistriaid* o'r diwedd wedi caniatau i ni y *ballot*, ond yn hollol o'u hanfodd. Dim diolch iddynt. Pa gallasent ei chadw yn hwy oddiwrthym, felly y buasai.

Pa fodd y gweithreda, nid ydys eto yn gwybod yn iawn. Digon tebyg y gwneir camsyniadau ar y cyntaf yn y defnydd o honi, a hyny nyd nes y deuir yn fwy cyfarwydd â hi, ond gall pawb fod yn sicr y bydd diogelwch i'r etholwr, a thyna wir ddyben y *ballot*.

Nis gallwn lai nac edrych ar bleidleisio trwy gyfrwng y *ballot* fel dechreuad oes newydd yn y wlad hon. Bydd ein Senedd ym mhen ychydig amser, yn ei chyfansoddiad, yn llawer gwahanol i'r peth yw, ac y mae wedi bod, p'un ai er gwell neu er gwaeth. Un peth a wyddom, sef y bydd y Senedd nesaf yn sicr o gynrychioli meddwl y wlad yn fwy nag y gwnaeth erioed o'r blaen. Hyd yn hyn *meistriaid* y wlad, ac nid ei gweision, mae aelodau y Senedd wedi bod. Gydag ychydig eithriadau, gellid dyweyd am Senedd Brydain, mai Ty yw o drawsfeddianwyr—*a house of usurpers*. Yr oedd yr aelodau yn fwy dyledus am eu seddau i gyfoeth, llwgrwobrwy, a dylanwad y bendefigaeth *(aristocracy)*, nag i lais y bobl. Llais y bobl yn wir ! Nid oedd hwnw ond *sham* i guddio llygredd y Ty. Nid oedd llais y bobl byth yn cael y trecha heb fod ugeiniau yn dioddef o herwydd y fuddugoliaeth. Am siamplau o hyn nid oes eisiau myned y'mhellach nag i Sir Aberteifi ar ol yr etholiad diweddaf. Faint o ddynion cydwybodol, gonest, a gwrol sydd yn dioddef hyd y dydd heddyw o herwydd yr ymdrechfa galed honno !

Dan yr hen oruchwyliaeth yr oedd dynion yn cael eu danfon i'r *poll* fel mintai o anifeiliaid mudion i ffair neu farchnad. Mor *fisi* oedd y goruchwylwyr a'r cyfreithwyr yn *canfasso* ar hyd y wlad. O, fel yr oeddynt yn gweniaethu i rai, ac yn awgrymu bygythion i eraill. Ac

ar ddydd y *poll* ni chawn weled byth mwy ddeiliaid Syr John Turnscrew, er ein mawr ddifyrwch pan yn ieuanc, yn cael eu gyru fel haid o ychain dros y mynydd i'r "lecsiwn" yn L——l. Y fath olygfa chwerthinadwy, ar un ystyriaeth, oedd honno! Os y buasai ambell hen ych ar y ffordd yn cynyg nacau a dangos ei anfoddlonrwydd i'r driniaeth, codai goruchwyliwr Syr John ei fastwn mawr uwch ei ben, gan waeddi "Trw ho, ac onite y pummed-ar-hugain a ddaw!" Gydâ'r gair arswydus hwnnw, dyna'r hen ych, druan (oblegid mae deall mewn ych) yn ymostwng, ac yn twthian yn y blaen i L——l, gydâ'i gyfoedion corniog. Y fath geffyl tàl oedd y goruchwyliwr yn farchogaeth y diwrnod hwnnw! O hyn allan y'mhob "lecsiwn" gellir dyweyd am dano yn ngeiriau y Mwriad yn Shakespear, "*Othello's occupation's gone!*"

Y gwelliantau nesaf a raid gael gyda golwg ar gyfansoddiad ein Senedd, ac yn etholiadau seneddol, fyddant y rhai canlynol:—Etholiad cyffredinol bob tair blynedd, yn lle bob saith, fel yn awr; taliad traul etholiadau gan yr etholwyr; a chyflog i bob aelod yn y Ty am ei waith a'i amser. Os nad ydym yn camsyniad arwyddion yr amserau yn fawr, nid yw'r amser y'mhell cyn y mabwysiadir yr egwyddorion hyn.

Nid awn i chwanegu yn bresenol ragor na dyweyd fod y cydsyniad breninol wedi cael ei roddi i Fesur y *Ballot*, am hyny bydd yr etholiad nesaf a gymer le, mewn unrhyw gynrychiolaeth, yn cael ei chario y'mlaen ar yr egwyddor newydd.

Mr. Golygydd,

Yr wyf yn dal crediniaeth resymol yn y Beibl. Yr wyf yn wastadol yn cael lles mewn ymchwiliad teg yn ei addysgiadau. Y mae ei adroddiadau yn fy nghynorthwyo yn fy ngweddiau, mewn myfyrdodau duwiolfrydig, ac yn mhrofedigaethau bywyd.

Byddaf yn ei ddarllen, nid i geisio daliadau neillduol ynddo, ond yn hytrach i gael allan beth oedd meddwl yr ysgrifenwyr, ac i ddysgu y gwersi y mynent i'r byd wybod.

Mewn geiriau eraill, nid yw fel eilun, sef delw, i mi, ond yn arweinydd. Nid llyfr i'w addoli yn ddall, ond llyfr i'w astudio yn barchus. Cydymaith i mi ydyw yn fy oriau dysgleiriaf ac yn y rhai tristaf.

Os oes neb yn dyweyd nad wyf yn credu yn y Beibl, meddwl y maent nad wyf yn credu yn eu hesboniadau hwy o hono. Y mae efe yn cynwys profiadau ysbrydol o'r dyfnaf, ond nid yw yn anffaeledig nac yn oruwch-naturiol ysbrydoledig. B.

Mr. Golygydd,

A welwch chwi fod yn dda, neu ryw un o ohebwyr talentog yr YMOFYNYDD, i roddi esboniad ar Rhuf. v. 14. "Eithr teyrnasoedd marwolaeth o Adda hyd Moses, ie, arnynt hwy y rhai ni phechasant yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda yr hwn yw ffurf yr un oedd i ddyfod." Ai marwolaeth naturiol neu ynte ysbrydol sydd yma i ddeall?

Ydwyf eich erfyniwr, S.

Barchedig Syr,

A oes dim modd cael ychydyg o hanes bywyd y diweddar Evan Thomas, yn yr Ymofynydd, fel y cafodd ei hysbysu genych ryw amser yn ol? Meddyliaf ei fod mor deilwng o gornelyn yn eich cyhoeddiad a llawer eraill o'i flaen (pob parch iddynt). Byddai yn dra hoff gan lawer weled ychydig o linellau yn ei gylch. Rhoddai Mr. Thomas o Llandyssul, mae yn ddiau, bob cynorthwy a allai i chwi.

Ydwyf yr eiddoch, D. J.

[Mae yn ddrwg iawn genym nad yw wedi cael ei wneud, ond nid arnom ni mae'r esgeulusdod wedi bod. Dysgwyl ydym ys misoedd bellach i arall gyflawni ei addewid.—Gol.]

Gwyl de hen dy Cwrdd Cefncoedycymmer.—Cynaliwyd yr wyl de flynyddol yn y capel hwn dydd Llun, Gorphenaf 1, pryd yr ymgynullodd dros fil o bobl i wledda ar y te a'r deisen. Dechreuwyd ar y gwaith am hanner awr wedi dau o'r gloch, a therfynwyd oddeutu wyth. Ar ol gorphen y te buodd Mr. Jones, Cefn Hotel, mor garedig a rhoddi benthyg ei gae i'r bobl ieuainc i ymddifyru ynddo. Yr oedd yr hin yn ffafriol trwy'r dydd. Yr unig anhapusrwydd oedd i lawer orfod dychwelyd adref heb gael cyfranu o'r wledd, o herwydd fod y lle mor llawn. Gobeithio y bydd i'r gynulleidfa o hyn allan godi pris y te i swllt fel cynulleidfaoedd eraill. Paham y gwnawn ni roddi y te mor rhad yn wahanol i bawb eraill, pan fyddo dyled arnom ac eisiau ei dalu? Wm. Harries.

Y Jesuitiaid.—Nid yn Ewrop yn unig y mae tynged yn troi yn erbyn y Jesuitiaid. Y mae Llywodraethau Guatemala a San Salvador wedi penderfynu eu bwrw hwynt ymaith o'u tiriogaethau, ac attafaclu eu holl feddiannau. Ymddengys eu bod yn cael eu llywodraethu gan yr un gweithredoedd dichellgar yn Neheubarth America ag yn Ewrop. Nid ydynt yn mhob man yn amcanu at ddim llai na chael uchafiaeth hollol ar y llywodraethau gwladol, ac attal hefyd pob rhyddid gwladol a chrefyddol. Teimlir yn gyffredinol yn awr yn Neheubarth America fod y fath urdd yn rhy beryglus i'w goddef, ac y dylid diddymu yr urdd, yn ol esampl amryw o wledydd Ewrop. Y maent yn awr yn lloci i mewn o Prwsia yr hon sydd wedi rhoddi rhybydd iddynt ymadael o herwydd eu bod yn cydfradu yn erbyn yr undeb. Mae ar rai hefyd yn y wlad hon beth o'u hofn. Gwell ganddynt fod heb eu cwmpeini, oblegid gwyddus eu bod yn elynion bradwrus i bob rhyddid, ac nid yn anfynych yn achosi annedwyddwch mewn teuluoedd. Dyben y sefydliad Jesuitaidd yw arferyd pob moddion a allont—drwg a da—i daenu pabyddiaeth.

Y Pabyddion Rhufain a'r Beibl.—Yn ystod y flwyddyn diweddaf, dangosodd trigolion Frescati, tref heb fod yn mhell o Rufain, awydd cryf i feddiannu a darllen y Beibl; ac y mae y cenhadon a'r gweinidogion Protestanaidd wedi rhoddi a gwerthu llawer o gannoedd o gopïau yn eu plith hwynt. Ni bu hyn yn hir heb ddyfod i glywedigaeth yr offeiriaid, y rhai sydd yn gwylio pawb a phob peth yn ddibaid; a gosodasant ddynion ar waith yn fuan i hela Beiblau. Pan gafwyd nifer digonol, gwnaed coelcerth yn muarth yr eglwys gadeiriol, a chynneuwyd tân gan yr offeiriaid. Ffaith hynod ydyw, cu bod wedi rhoddi darlun o'r brenin ar y pentwr cyssegredig, yr hyn a arwyddai:—Fel hyn y trenga erlidiwr yr Eglwys, a sylwedd pob

heresi—Victor Emmanuel, a'r Beibl! Pan glywodd gweinidog Protestanaidd Saesneg yn Rhufain, y parch Mr. Wall, am y weithred erchyll, efe a aeth yno i weled â'i lygaid ei hun, yr hyn nis gallai o'r braidd ei gredu trwy glywed—a gwelodd y pentwr lludw, a darnau llosgedig o Feiblau ynddo.

Y Glo.—Mae'r glo wedi myned i bris uchel, a chwynir yn gyffredinol o herwydd hyny trwy yr holl wlad. Dywedir mai achosion y codiad yw byrhad oriau gweithio y glöwyr, y codiad yn eu cyflogau, a'r difa aruthrol sydd ar y glo y'mhob parth o'r byd. Nid yw'r glöwr yn cael cymmaint o'r codiad ag y meddylia llawer—oddeutu 4½c. a 6c. y dunell mae yn gael yn awr yn fwy nag o'r blaen. Meddylier ei fod yn tori ar y cyfan yn y dydd dair tunell; ei enill yn fwy nag o'r blaen yw, o swllt i ddeunaw y dydd. Yn awr, yr ydys wedi codi pris y glo o 4s. i 5s y dunell, hyny yw, o 12 i 15 swllt y tair tunell. Wedi talu codiad yn nghyflog y glöwr, mae gan y glo-feddiannydd o 10s. i 12s. 6d. o enill clir yn y tair tunell yn fwy na chyn y codiad. Yr ydym yn caniatau swllt at dreuliau bychain eraill, fel y gwel y darllenydd. Dichon nad ydym yn hollol iawn yn ein cyfrif, ond nid ydym yn mhell o'r gwir. Chwareu teg i'r glöwyr. Nid iawn gosod y bai i gyd ar eu cefnau hwy, pan mae'r enill mwyaf yn myned i logell y meistr. Pa hyd y pâr y prisoedd uchel presenol, anhawdd yw dyweyd.

Hanesyn Dychrynllyd am Fodrwy Ddiamwnt.—Yn mhlith y sawl a gyfarfyddasant â'u diwedd yn y ddamwain a gymmerodd le yn ddiweddar ar reilffordd Metuchen, New Jersey, Gogledd America, yr oedd cwpl Daniaidd o'r enw Potassen. Nid oedd ond o ddeutu dau fis er pan briodasant, ac yr oedd Mr. Potassen yn fab i bendefig Daniaidd. Ar eu taith briodasol yr oeddynt, ac ar eu ffordd i San Francisco yn Nghaliffornia, lle y mae brawd i'r boneddwr, pan gyfarfyddasant â'r ddamwain ofidus. Pan gymmerodd y gwrthdarawiad le, yr oedd yn dywyllwch, ac yn gyffro annisgrifiadwy am ychydig funydau; ond adfeddiannodd y boneddwr ei ymwybodolrwydd yn fuan; ac yn bur naturiol, y meddylddrych cyntaf a'i llanwodd ydoedd yn nghylch ei wraig. Gwnaethpwyd ymchwiliad uniongyrchol am y foneddiges, a chaed hi yn gorwedd o dan bentwr o'r malurion, yn hollol ddideimlad, ac yn orchuddiedig gan waed. Ar ei waith yn ei chodi i fyny, llanwyd ei phriod â dychryn wrth weled fod un o'i breichiau wedi ei thori ymaith yn llwyr oddi wrth ei chorph. Symmudwyd y foneddiges anffodus i le cysgodol, ac yna dechreuodd y gŵr torcalonus ar y gorchwyl anhyfryd o chwilio am fraich golledig ei briod. Hysbysodd fod ar un o fysedd y llaw fodrwy briodasol o ddiamwnt, yn werth amryw gannoedd o ddoleri, ac yn y fan dechreuwyd ymchwiliad cyffredinol. Yn mysg yr ymchwilwyr yr oedd un o weision y trén, a sylwyd arno yn celu rhywbeth o dan ei gôt, ac yna yn myned ymaith. Daliwyd ef yn fuan, a phan ganfyddodd yntau eu bod wedi ei gael allan, taflodd yr hyn a guddiasai ymaith oddi wrtho, a'r hyn a brofodd i fod y fraich golledig. Gorchymynodd y pendefig—y priod—i'r fodrwy gael ei thynu ymaith, ac i ofal gael ei gymmeryd am y fraich. Dygwyd y foneddiges i feddygdy St. Barnabas, Newark, ac yno y mae yn bresenol, ond ar wellhad.

Dal y Lleidr.—Galwodd offeiriad Hindwaidd holl aelodau ei deulu at eu gilydd, gan fod un o honynt wedi bod yn euog o ladrad, ac anerchodd hwynt fel y canlyn:—"Cymmered pob un o honoch un o'r ffyn hyn, y rhai sydd yn union yr un hyd, a rhoddwch hwy o dan eich gobenydd heno. Nid wyf yn awr yn gwybod pwy yw y troseddwr; ond rhaid i chwi ddychwelyd y ffyn i mi boreu y fory; a bydd yr hon sydd yn perthyn i'r lleidr wedi tyfu modfedd yn ystod y nos." Aeth y teulu oll i'w gwelyau; ond cyn cysgu, darfu i'r dyn a gyflawnodd y lladrad—gan feddwl bod yn

rhy gyfrwys i'r offeiriad—dori modfedd ymaith o'i ffon ef, gan feddwl yn sicr y byddai iddo wrth wneuthur hyn beri i'w ffon fod yr un hyd a'r lleill erbyn boreu dranoeth. Dychwelwyd y ffyn; ac ar ol eu cymmharu, canfyddodd yr offeiriad mewn moment pwy oedd y troseddwr, er syndod a dychryn mawr i'r lleidr.

PIGION.

Cyfeillgarwch gormodol, fel glo llosgedig, a derfyna yn ddisymwth.

Dysgwch blant i edmygu pob peth sydd yn brydferth, a chwi a'u dysgwch hwynt i fod yn ddefnyddiol.

Wrth wneuthur cymwynas i arall yr ydym yn dyrchafu ein hunain.

Dywed Beecher am ddydd Sul, fod llawer yn edrych arno fel ysbwng i sychu ymaith bechodau yr wythnos.

Yn ngenau yr awr foreu y mae aur.

Yr hwn sydd yn gwrgnach o herwydd ei dynged, sydd yn dinoethi ei draed i ddamsang ar ddrain.

Yr hwn a fedd fwy o wybodaeth na synwyr sydd yn fwy defnyddiol i arall nac iddo ei hun.

Mae gormodedd o fwynhad, fel gormodedd o swgr, yn anafu yr hyn a fwriadid i'w felysu.

Y sawl nid oes ganddynt feddwl i'w ddefnyddio sydd yn ymofyn difyrwch.

I gyfnewid ein calonau rhaid i ni gyfnewid ein buchedd, oblegid ammhosibl yw byw un ffordd ac ymfuchedda ffordd arall.

Nid yw buddugoliaeth menyw yn gynwysedig yn hoffder ei charwr, ond yn mharch ei gwr yr hyn ni enilla heb gwrteithio yn wastadol ynddi ei hunan y rhinweddau y mae efe yn werthfawrogi fwyaf.

Os ydych yn chwenych heddwch, caru gwirionedd, ymofyn duwiolder, a chasau rhagrith, gosodwch o'r neilldu y pethau hyny a elwir *erthyglau ffydd, a chanonau yr Eglwys*, nad ydynt i'w cael *mewn geiriau eglur yn yr Ysgrythyrau*, neu yn cael eu hawdurdodi ganddynt mor eglur ag y gall pob dyn gonest a chydwybodol yn rhwydd eu canfod.

Y mae rhai dynion NA FEIDDIANT o herwydd coelgrefydd, holi i mewn i athrawiaeth crefydd, gan ddewis yn hytrach ganlyn eraill. Mae rhai NA EWYLLYSIANT holi i mewn i'r grefydd a broffesant, oblegid eu bod yn defnyddio crefydd i ddybenion bydol, am hyny nid gwirionedd, ond hunan les yw eu hamcan. Ac y mae rhai o ddiogi a hunan-esgeulusdod NA WNANT chwilio i mewn i grefydd, am mai eu holl ofal yw cael eu hystyried yn grefyddol.

CYMRU.

TON—"*Ar hyd y nos.*"

O holl wledydd daear wiwlon,
Hen Gymru fad,
Ydyw'r oreu gan fy nghalon,
Hen Gymru fad;
Er ein beio gan y Saeson,
A dioddef geiriau chwerwon,
Caru wnawn hen iaith y Brython,
Yn Nghymru fad.

Tra fo'n byw ein heisteddfodau,
Yn Nghymru fad,
Siarad wnawn hen iaith ein tadau,
Yn Nghymru fad ;
Ymddifyrwn yn arferion,
A defodau 'n tadau dewrion,
A choleddwn gyda chalon,
Hen Gymru fad.

Hoff yw dy fythynau destlus,
Hen Gymru fad,
Gyda'th olygfeydd rhamantus,
Hen Gymru fad.
Caru 'r ydym lynau llawnion,
A dyffrynoedd ffrwythlawn breision,
A mynyddoedd cribog llymion,
Hen Gymru fad.

Hoff yw seiniau tyner telyn
Hen Gymru fad,
Hoff yw tonau ter dy fechgyn,
Hen Gymru fad ;
Hoff yw chwyddo dy gerddoriaeth,
A pharablu dy farddoniaeth,
A llon fyw yn nawdd llenyddiaeth
Hen Gymru fad.

Llwyddiant roddwn it' o galon,
Hen Gymru fad,
I dy ran boed pob bendithion,
Hen Gymru fad ;
Boed dy feibion oll yn ffynu,
A dy ferched yn rhagori,
A boed Duw yn llywydd iti,
Hen Gymru fad.

Aberystwyth. DEWI AERON.

GWYN Y GWEL Y FRAN EI CHYW.

MAI gwyn y gwel y farn ei chyw
Sydd hen ddiareb wir,
Ac nid oes neb ar dir y byw,
A dd'wed nad yw yn bur ;
Er mai ffolineb d'wedyd fod,
Cyw du y fran yn wyn,
Fe dd'wedir fod y brain erio'd,
Yn arfer siarad hyn.

Mae llawer mam yn Nghymru gu,
Yn arfer iaith y fran,
Gan dd'weyd pe fyddo 'i chyw yn ddu,
Ei fod yn wyn a glan.
Er fod ei chyw 'n anfoesol iawn,
A brith ei liw bob pryd,
Mae'r fran foreuddydd a phrydnawn,
Yn gwadu hyn i gyd.

Er fod ei chyw yn d'od, pwy ddydd,
Yn feddw iawn o'r ffair,
Mae'r fran yn taeru 'n ddigon rhydd,
Mai anwir hyn bob gair ;

Er iddo syrthio yn y ffôs,
Yn mreichiau alcohol,
Mae'r frân yn crawcian ddydd a nos,
Na bu ei chyw mor ffôl.

O wragedd, rhoddwch heibio mwy,
Yr afer isel hon,
Waeth ni ddaw budd na bendith drwy,
'R fath beth i'ch cywion llon,
Os ydyw'r cyw yn ddu ei liw,
Ni ddaw ef byth yn wyn,
Drwy 'i ganmawl—na ddaw, wragedd gwiw,
Ffolineb ydyw hyn.

Blaenpennal. MYFENYDD.

Bu Farw.

DAVID PRICE.—Dydd Sul, Ebrill 14, yn 59 oed, David Price, Cefncoedycymer (gynt o Ardd Penydarren). Dioddefodd gystudd hir, tuag wyth mlynedd, yn hynod o amyneddgar. Dydd Iau canlynol daeth tyrfa fawr y'nghyd i weinyddu y gymwynas ddiweddaf iddo. Hebryngwyd ef i dy ei hir gartref i fynwent yr Hendycwrdd i orwedd yno hyd ganiad yr udgorn. Pregethodd y Parch. I. T. Williams ar yr achlysur oddiwrth 2 Timotheus iv. 7. 8. Bu Mr. Price yn byw yn Ardd Penydarren tua 35 o flynyddau, ac yno daeth i sylw mawr gan y wlad, a thrwy ei ddiwydrwydd a'i gynildeb casglodd lawer o gyfoeth. Yr oedd yn ddyn gonest, geirwir, ac yn cael ei barchu gan bawb a'i hadwaenai. Bu yn aelod ffyddlon yn yr Hendycwrdd am 30 o flynyddoedd. Cafodd ei fagu o dan aden Eglwys Loegr yn Defynog, ond nid oedd erioed wedi gallu coleddu y syniadau. Wedi symud i'r Cefn ar fyr ymadawodd ag Eglwys Loegr; yr oedd yn gallu deall Paley a Channing yn well, meddai. Ymadawodd a'r fuchedd hon mewn heddwch a phawb, a chyda hyder ffydd cael ail-gyfarfod etto mewn byd hwy a gwell. W. HARRIES.

JOANNA LLOYD.—Gorph. 16, yn Newton, ger Penbontarogwr, yn 79 oed, Joanna, priod y Parch. Titus Lloyd, gweinidog yr Undodiaid yn y Wig a'r Nottis. Claddwyd hi dydd Gwener canlynol yn mynwent ty cwrdd y Wig, pryd y pregethodd Proffeswr Evans, Caerfyrddin, oddiwrth Ioan xi. 25, a boreu y Sabboth canlynol traddododd bregeth angladdol, yn yr un lle, oddiwrth Salm xc. 12. Dangoswyd gan y cymydogion barch mawr i'r trancedig a'r teulu—nid oedd dim llai na phump-ar-hugain o gerbydau yn yr angladd. Bu hi a'i phriod, ag sydd yn hiraethlon ar ei hol, yn cario yr iau briodasol hanner can' mlynedd. Gellir traethu am y fenyw Grist'nogol hon iddi fod yn wraig ffyddlon, yn fam gariadlawn, ac yn gymydoges gymwynasgar. Gwnaeth yr hyn a allodd dros ei phriod a thros ei phlant y rhai a hyfforddodd yn ffyrdd rhinwedd ac yn ofn yr Arglwydd. Mae dau o honynt yn weinidogion parchus a defnyddiol yn yr Eglwys Undodaidd—y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, a'r Parch. J. B. Lloyd, Wareham. Mae y plant eraill hefyd yr un mor barchus a defnyddiol yn eu cylchoedd. Dedwydd yw rhieni plant ag ydynt oll wedi troi allan yn dda! Cafodd gystudd maith yr hwn a ddioddefodd yn amyneddgar ac yn ostyngedig i ewyllys y Tad Nefol. Fel pawb gwir Grist'nogion, cysur ei phriod a'i phlant yw y gobaith sydd ganddynt, yn sylfaenedig ar sicrwydd adgyfodiad yr Iesu, o gael ail-gyfarfod a hi mewn byd arall, gan deimlo yn ddiolchgar am y fraint o gael ei chyfeillach a'i chynorthwy dros gymmaint o flynyddau yn y bywyd hwn—cyfeillach a chynorthwy mam rinweddol! Beth all fod yn fwy o fraint?

GWELLIANT GWALLAU.

Darllener yn llinellau 15, 16, 17, ym marwolaeth Lewis Evans, Castell Llwyd, *mae* yn lle *oedd*. A. B. C.

ARGRAFFWYD GAN C. & D. JONES, HEOL-Y-BRENIN, CAERFYRDDIN.